

FFRAMWAITH LLYWODRAETHIANT CORFFORAETHOL

(yn ymgorffori Cod Ymddygiad yr Ymddiriedolwyr 2007)

Chwefror 2017

(diweddarwyd Chwefror 2018, gyda diwygiadau pellach yn Awst 2018)

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol (yn cynnwys *Cod Ymddygiad* Ymddiriedolwyr)

1. Cyflwyniad i'r Fframwaith Llywodraethiant

- 1.1 Fel corff cyhoeddus, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi ymrwymo i ddilyn arfer gorau yn ei llywodraethiant ac i fod yn dryloyw yn y modd y mae'n dod i benderfyniadau ac yn cynnal ei gweithgareddau.
- 1.2 Diben y Fframwaith Llywodraethiant hwn yw disgrifio llywodraethiant y Llyfrgell a'i phrif ddogfennau llywodraethiant, sef y [Siarter a'r Statudau](#)¹ a'r Rheoliadau. Mae hefyd yn dangos y ffordd at y polisiau y mae'r Llyfrgell wedi'u mabwysiadu ac sy'n rheoleiddio'r modd y mae'n darparu'i gwasanaethu i'r cyhoedd ac yn eu harwain.
- 1.3 Mae'r Fframwaith hwn hefyd yn mwyhau'r Rheoliadau mewn perthynas â'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan Ymddiriedolwyr, ac i'r graddau hynny mae'r ddogfen hon hefyd yn gweithredu fel *Cod Ymddygiad* Ymddiriedolwyr.
- 1.4 Ble mae angen arweiniad awdurdodol, dylid cyfeirio bob tro at y ddogfen llywodraethiant berthnasol.
- 1.5 Bwriedir diweddarau'r Fframwaith hwn yn flynyddol fel ei fod yn gosod y sefyllfa fel y mae ar ddechrau pob Blwyddyn Ariannol.

2. Statws y Llyfrgell

- 2.1 Sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ('y Llyfrgell') drwy Siarter Frenhinol ar 19 Mawrth 1907. Caniatwyd Siartrau Atodol a oedd yn cyflwyno mân newidiadau yn 1911 ac yn 1978. Ar 19 Gorffennaf 2006, wrth edrych ymlaen at ganmlwyddiant y Llyfrgell, caniatwyd Siarter Frenhinol Atodol a Statudau newydd. Newidiodd hyn gyfansoddiad y Llyfrgell a'i llywodraethiant yn sylweddol, yn ychwanegol at ystyried y datblygiadau cyfansoddiadol a ddeilliodd o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Y prif newid oedd gosod strwythur llywodraethiant un haenen Bwrdd Ymddiriedolwyr yn lle dwy haenen – Llys Llywodraethwyr a Chyngor, ac mae Llywodraeth Cymru a'r Llyfrgell yn rhannu'r penodiadau i'r Bwrdd. Diwygiwyd Statudau'r Llyfrgell ymhellach yn 2013.
- 2.1 Mae'r Llyfrgell yn elusen gofrestrdig (rhif cofrestru: 525775) ac fel y cyfryw daw o dan oruchwyliaeth reoleiddiol y Comisiwn Elusennau.

¹ Siarter a'r Statudau <https://tinyurl.com/yda22fj6>

- 2.2 Caiff y Llyfrgell swmp ei nawdd gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi'i dynodi'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

3 Dogfennau ac awdurdodau llywodraethiant

- 3.1 Y ***Siarter Brenhinol Atodol a'r Statudau***. Y rhain yw prif ffynhonnell awdurdod Siarter y Llyfrgell a'i hamcan elusennol a'i llywodraethiant mewnol, yn enwedig pwerau a chyfrifoldebau Ymddiriedolwyr y Llyfrgell. Awdurdoda'r Statudau'r Ymddiriedolwyr hefyd i wneud Rheoliadau sy'n gosod rheolau manylach i Ymddiriedolwyr wrth iddynt gynnal eu busnes.
- 3.2 ***Cyfraith elusennau***, yn bennaf [**Deddf Elusennau 2011**](#)² a [**Deddf Ymddiriedolwyr 2000**](#)³. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn ystyried canllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau o bryd i'w gilydd, fel [**'Yr Ymddiriedolwr Hanfodol'**](#), [**'Annibyniaeth Elusennau wrth y Wladwriaeth'**](#)⁵ a [**'Gwrthdaro Buddiannau'**](#)⁶.
- 3.3 ***Dogfen Fframwaith*** y cytunwyd arni yn 2011 rhwng Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru ("MALD", CyMAL: Amgueddfeydd ac Archifau Cymru gynt) a'r Llyfrgell yw'r cytundeb cyllido ar gyfer cymorth grant blynyddol Llywodraeth Cymru i'r Llyfrgell ac mae'n dod â'r gweinyddu ariannol o fewn cwmnasiad y rheolau sy'n rheoleiddio cyllid cyhoeddus. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn cyhoeddi [**Llythyr Cylch Gorchwyl**](#)⁷ blynyddol sy'n cyfarwyddo gwariant yr arian cyhoeddus a dderbynnir gan y Llyfrgell. Mae'r [**Cod ar Reoleidd-dra a Phriodoldeb**](#)⁸ a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi ym mis Tachwedd 2004 hefyd yn berthnasol i'r Llyfrgell dan y Ddogfen Fframwaith.
- 3.4 Mae'r Llyfrgell yn gorff cyhoeddus yng Nghymru at ddiben [**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)**](#)⁹ 2015

² Deddf Elusennau 2011 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2011/25/contents>

³ Deddf Ymddiriedolwyr 2000 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/29/contents>

⁴ Yr Ymddiriedolwr Hanfodol
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/707573/CC3_Welsh.pdf

⁵ Annibyniaeth Elusennau wrth y Wladwriaeth [Saesneg yn unig]
<https://www.gov.uk/government/publications/independence-of-charities-from-the-state-rr7>

⁶ Gwrthdaro Buddiannau
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/591551/CC29_W.pdf

⁷ Llythyr Cylch Gorchwyl Llyfrgell Genedlaethol Cymru 2019 2021
https://www.llyfrgell.cymru/fileadmin/fileadmin/docs_gwefan/amdanom_ni/dogfennaeth_gorfforaethol/Llythyr_Cylch_Gorchwyl_2019_2021.pdf

⁸ <https://esrc.ukri.org/files/about-us/governance-and-structure/regularity-propiety-and-value-for-money-hm-treasury-see-annex-21/>

⁹ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh>

- 3.5 Mae'r Llyfrgell yn 'awdurdod cyhoeddus' at ddiben [Deddf Rhyddid Gwybodaeth \(2000\)](#)¹⁰ ac oherwydd natur ei swyddogaethau rhaid ei bod yn arbennig o effro i ofynion y [Ddeddf Gwarchod Data \(2018\)](#)¹¹, a [Rheoliad Cyffredinol Gwarchod Data](#)¹².
- 3.6 Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae ymagwedd y Bwrdd at gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau llywodraethiant yn dilyn [Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus](#)¹³ y cyfeirir atynt weithiau fel 'Egwyddorion Nolan'.
- 3.7 Mae'r Llyfrgell hefyd wedi mabwysiadu [Cod Llywodraethiant Elusennol](#)¹⁴ a gyhoeddwyd gan Grŵp Llywio Cod Llywodraethiant Elusennol.

4 Diben y Llyfrgell a'i rôl

- 4.1 Mynegir diben y Llyfrgell yn Siarter Frenhinol Atodol 2006 fel:

casglu, diogelu a rhoi mynediad at bob math a ffurf ar wybodaeth gofnodedig, yn enwedig mewn perthynas â Chymru a Chenedl y Cymry a phobloedd Celtaidd eraill, er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymroi i ymchwil a dysg.

- 4.2 Y Llyfrgell Genedlaethol yw llyfrgell ac archif digymar Cymru. Mae'n adnodd gwybodaeth enfawr ac yn drysorfa ar bob pwn, ac yn storfa fyw o ddiwylliant cofnodedig Cymru – ein 'Treftadaeth Ddogfennol' fel y diffinnir gan UNESCO – sydd ar gael yn rhydd i bawb. Mae hefyd yn un o'r chwe Llyfrgell "adnewo cyfreithiol" yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon¹⁵ ac mae ganddi freintiau statudol sy'n ei galluogi i gasglu cyfran uchel o holl allbwn cyhoeddiadau print y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, gan gynnwys fformatau electronig. Erbyn heddiw, mae iddi dri dimensiwn – adeilad ffisegol ysblennydd yn Aberystwyth sy'n gartref i'r casgliadau print, llawysgrifau, gweledol a chlyweledol, llyfrgell ac oriel ar-lein sydd ar gael ar draws y byd dros y rhyngwrdd, ac mae'n ehangu ei phresenoldeb mewn amryw o leoliadau yng Nghymru.
- 4.3 Wrth galon y Llyfrgell mae ei chasgliadau cyfoethog ac amrywiol, rhai ohonynt wedi eu 'harysgrifennu' ar gofrestr Cof y Byd UNESCO:

¹⁰ Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/36/contents>

¹¹ Deddf Gwarchod Data 2018 <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/12/schedule/19/paragraph/169/enacted>

¹² Rheoliad Cyffredinol Gwarchod Data (GDPR) <https://gdpr-info.eu/>

¹³ Egwyddorion Nolan <http://gov.wales/about/recruitment/public-appointments/?lang=cy>

¹⁴ Cod Llywodraethiant Elusennol https://www.charitygovernancecode.org/cy/cod-llywodraethu-i-elusennau?set_language=cy

¹⁵ Y lleill yw Llyfrgell y Bodleian yn Rhydychen, Llyfrgell Prifysgol Caergrawnt, Llyfrgell Coleg y Drindod, Dulyn, Llyfrgell Genedlaethol yr Alban a'r Llyfrgell Brydeinig.

- (a) Gweithiau print: llyfrau, cyfnodolion, papurau newydd a deunyddiau print eraill sy'n dod i gyfanswm o tua 7m cyfrol.
- (b) Llawysgrifau: 30,000 eitem, yr hynaf yn mynd yn ôl i 113 OC ac yn cynnwys llenyddiaeth gynharaf Cymru a gweithiau Prydeinig ac Ewropeaidd cynnar.
- (c) Archifau: 15km, 2,500 casgliad, gan gynnwys Archif Gwleidyddol Cymru, cofnodion ystadau, cofnodion Llys y Sesiwn Fawr a'r Eglwys yng Nghymru, pob ewylllys a brofwyd yn esgobaethau Cymru cyn 1858, papurau llenyddol a phersonol modern ac archifau sefydliadau a busnesau Cymru.
- (ch) Mapiau: dros 1.5m, a miloedd o atlasau.
- (d) Lluniau: 60,000 gwaith yn dogfennu Cymru, yn bennaf trwy dirluniau a phortreadau.
- (dd) Ffotograffau: 950,000 print, negatiff a thryloywlun – y casgliad mwyaf yng Nghymru.
- (e) Microffurfiau: e.e. o bapurau newydd, archifau a ffynonellau hanes y teulu.
- (f) Sain a delweddau symudol: 7m troedfedd o ffilm, 300,000 awr o fideo, 250,000 awr o recordiadau sain, 200,000 eitem o Archif ITV Wales, a miloedd o recordiau a thapiau.
- (ff) Deunyddiau electronig: miliynau o wrthrychau digidol, gan gynnwys CD-ROMau, e-llyfrau, e-gylchgronau, gwefannau, archifau electronig ac eitemau wedi'u digido.

4.4 Mynegir gweithgarwch y Llyfrgell i hyrwyddo'i hamcan drwy bum 'swyddogaeth graidd'. ac mae gan bob un o'r swyddogaethau craidd hyn nifer o agweddau sy'n rhychwantu gweithgareddau niferus:

- (a) Casglu
- (b) Gwarchod
- (c) Rhoi mynediad a gwybodaeth
- (ch) Cyhoeddusrwydd a dehongli
- (d) Cydweithio proffesiynol, yn enwedig gyda llyfrgelloedd ac archifau eraill yng Nghymru, Amgueddfa Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (sydd bellach wedi'i leoli o fewn ystad y Llyfrgell yn Aberystwyth)
- (dd) Cydweithio proffesiynol gyda llyfrgelloedd adnau cyfreithiol eraill yn y Deyrnas Unedig ac iwerddon

5 Ymgysylltu â'r Cyhoedd

5.1 Gofyn Statudau'r Llyfrgell i'r Ymddiriedolwyr fabwysiadu cynllun sy'n gosod trefniadau ar gyfer ymgynghori'n rheolaidd â'r cyhoedd a gyda chyrrff sydd â diddordeb mewn hyrwyddo

amcanion y Llyfrgell, ac i nodi'r rheiny sydd â'r cymwysterau a'r parodrwydd i roi cymorth a chynghor i'r Llyfrgell.

- 5.2 Y cynllun presennol yw [Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu Cyhoeddus 2017](#) ^{16a} fabwysiadwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr yn Nhachwedd 2017.
- 5.3 Wrth gynllunio ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu at ddiben penodol, bydd y Llyfrgell yn defnyddio dadansoddiad rhanddeiliaid i nodi grwpiau perthnasol a dulliau priodol o weithredu, a chyfeirio at gynllun gweithredu'r Strategaeth hon. Defnyddir ystod o ddulliau ar gyfer pob prosect unigol, all gynnwys
- (a) arsylwi
 - (b) dogfennau ymgynghori
 - (c) cyfarfodydd agored a chyhoeddus
 - (ch) Paneli arbenigol
 - (d) gweithdai
 - (dd) grwpiau ffocws
 - (e) holiaduron ac arolygon
 - (f) cyfathrebu ar-lein
 - (ff) dulliau traddodiadol megis llyfrau sylwadau mewn arddangosfeydd a ffurfleni adborth mewn digwyddiadau

6 Cynllunio Strategol

- 6.1 Gweithreda'r Llyfrgell ar gylch cynllunio pedair blynedd. Paratoir pob Cynllun Strategol gyda budd ymgynghoriad ac ymgysylltiad â'r cyhoedd a chyrrff sy'n rhanddeiliaid. Y Cynllun cyfredol yw [Cof y Genedl: Llunio'r Dyfodol, Cynllun Strategol 2017 -2021](#) ¹⁷.
- 6.2 Fel rhan o'i gofynion adrodd i Weinidogion Cymru, mae'r Llyfrgell hefyd yn cynhyrchu [Cynllun Gweithredu](#) ¹⁸ blynyddol.

¹⁶ Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu Cyhoeddus <https://tinyurl.com/ybgcymdo>

¹⁷ Cof y Genedl: Llunio'r Dyfodol. Cynllun Strategol 2017 - 2021 <https://tinyurl.com/y75etybx>

¹⁸ Cynllun Gweithredu <https://tinyurl.com/y8y8599r>

7 Egwyddorion llywodraethiant a strwythur

- 7.1 Gorwedd awdurdod llywodraethiant y Llyfrgell gyda'r Ymddiriedolwyr sy'n rhan o Fwrdd y Llyfrgell. Fel y cyfryw, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am lywodraethiant, strategaeth, rheolaeth ariannol a rheoli asedau ar gyfer y Llyfrgell, ac mae'n cwrdd yn rheolaidd i drafod ei fusnes, naill ail fel Bwrdd llawn neu mewn pwyllgorau.

8 Y Bwrdd Ymddiriedolwyr

- 8.1 I grynhoi, dyma rôl y Bwrdd:

- (a) sicrhau bod y Llyfrgell yn cyflawni'i hamcan dan y Siarter Frenhinol, ynghyd â'i rhwymedigaethau statudol a rhwymedigaethau cyfreithiol ac elusennol eraill;
- (b) cynnal safonau llywodraethiant uchel sy'n ennill hyder y cyhoedd, noddwyr a rhanddeiliaid a staff y Llyfrgell.
- (c) hybu unplygrwydd y Llyfrgell a'i henw da, a diogelu'r rhain;
- (ch) pennu cyfeiriad strategol cyffredinol y Llyfrgell o fewn terfynau adnoddau;
- (d) monitro perfformiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a'i d/thîm, gan eu dwyn i gyfrif am ymarfer eu swyddogaethau dirprwyedig a chyflawni yn erbyn cynlluniau a chyllidebau;

- 8.2 Mae'r Bwrdd hefyd yn rhoi sylw penodol i:

- (a) ddiogelu annibyniaeth y Llyfrgell;
- (b) adnabod risgiau a'u rheoli, a ffrwyno cyfleoedd;
- (c) sicrhau y defnyddir arian y cyhoedd yn ddoeth;
- (ch) uchafu effaith y Llyfrgell a'i heffeithiolrwydd;
- (d) gwrando ar randdeiliaid ac ymateb iddynt; a
- (dd) sicrhau bod y Llyfrgell yn gweithredu'n deg, yn gyfrifol, yn dryloyw, yn gyfatebol ac yn foesebol.

- 8.3 Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd yn disgwyl:

- (a) gweithredu ar y cyd wrth ddod i benderfyniadau;
- (b) ceisio consensws ar benderfyniadau pwysig. Ble nad yw hyn yn bosib, cymerir penderfyniadau ar fwyafrif mewn pleidlais gyda'r Llywydd, fel y Cadeirydd, yn dal pleidlais fwrw. Gall Ymddiriedolwr ofyn am gofnodi'r ffordd y pleidleisiwyd ar fater penodol yng Nghofnodion y cyfarfod;

- (c) datblygu'r cynlluniau a'r polisïau sy'n arwain gweithrediadau mewnol ac allanol y Llyfrgell ac yn gosod ei chyfeiriad strategol, a chymeradwyo cynlluniau a pholisïau o'r fath;
- (ch) goruchwyllo gwaith y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd ac uwch reolwyr tra'n dirprwyo gweithrediad beunyddiol i'r tîm gweithredol;
- (d) adfyfrio ar ei pherfformiad ei hun yn flynyddol, gan archwilio'i heffaith a'i heffeithiolrwydd a nodi unrhyw welliannau angenrheidiol.

9 Penodiadau i'r Bwrdd

- 9.1 Mae Bwrdd y Llyfrgell yn cynnwys pymtheg Ymddiriedolwr, wyth wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad â'r Llyfrgell, a saith gan y Llyfrgell yn unol â Rheoliadau. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cynnwys y Llywydd, yr Is-lywydd a'r Trysorydd, y cyfeirir atynt ar y cyd fel Swyddogion y Llyfrgell. Penodir y Llywydd a'r Is-lywydd gan Lywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad â'r Ymddiriedolwyr, a'r Trysorydd gan y Llyfrgell mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru. Gwneir pob penodiad yn unol â'r Siarter a'r Statudau a thrwy ddetholiad agored.
- 9.2 Pan fydd seddi gwag yn codi ymhlith yr Ymddiriedolwyr, gwneir penodiadau gan y Gweinidogion yn unol â'r gweithdrefnau sy'n berthnasol o bryd i'w gilydd mewn perthynas â [*Chod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus*¹⁹](#).
- 9.3 Ble mae yna nifer o seddi gwag ymhlith penodiadau Gweinidogaethol a phenodiadau'r Ymddiriedolwyr, bydd y bwrdd yn enwebu Ymddiriedolwr (fel arfer y Llywydd) i eistedd ar y panel cyfweld ac i ymgynghori â'r Gweinidogion ac adrodd yn ôl i'r Ymddiriedolwyr i gael eu cymeradwyaeth mewn perthynas â phenodiadau Ymddiriedolwyr.
- 9.4 Pan fydd seddi gwag yn codi mewn perthynas â'r seddi y mae gan Ymddiriedolwyr yr hawl i'w penodi mewn ymgynghoriad â Gweinidogion Cymru yn unig, mae'r Rheoliadau'n darparu i'r Ymddiriedolwyr sefydlu Panel Enwebu i gynnal proses ddethol agored a chynnig argymhellion i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr.

10 Pwyllgorau'r Bwrdd

- 10.1 O bryd i'w gilydd, mae'r Bwrdd yn penodi pwyllgorau gyda chylch gorchwyl ac aelodaeth glir i gyflawni swyddogaethau llywodraethiant parhaus neu swyddogaethau llywodraethiant ag iddynt derfyn amser. Gall y Bwrdd hefyd sefydlu gweithgorau anffurfiol o bryd i'w gilydd – e.e. i ddatblygu ffordd o feddwl y Llyfrgell ar destunau penodol ar gam cynnar.
- 10.2 Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd wedi sefydlu'r pwyllgorau sefydlog canlynol:

¹⁹ Gweler:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/578498/governance_code_on_public_appointments_16_12_2016.pdf [Saesneg yn unig]

(a) Pwyllgor Archwilio a Risg (y mae gofyn iddo'i sefydlu dan ei Reoliadau),

(b) Pwyllgor Cynllunio Ariannol

(c) Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad

10.3 Mae aelodaeth a chlych gorchwyl pwyllgorau wedi'u cynnwys fel atodiadau i'r ddogfen hon.

11 Cod Ymddygiad Ymddiriedolwyr

11.1 Daliad sylfaenol cyfraith Elusennau yw bod yn rhaid i Ymddiriedolwyr weithredu yn y ffordd sydd orau i'r elusen yn unig, ac yn annibynnol i sectorau neu etholaethau penodol, ac na ddylent ddefnyddio'u swydd na chamddefnyddio gwybodaeth a gafwyd yn rhinwedd y rôl hon i elwa'n bersonol, yn broffesiynol nac yn breifat. Mae "Egwyddorion Nolan" hefyd yn gyson â'r gofyniad hwn.

11.2 Mae yna gyfrifoldeb cyffredinol ar Ymddiriedolwyr i reoli'r Llyfrgell yn effeithiol. Felly mae cyfleoedd i Ymddiriedolwyr gyfathrebu'n rhydd gydag uwch staff ynghylch materion sy'n berthnasol i effeithiolrwydd rheolaeth y Llyfrgell, ei datblygiad a'i pherthnasoedd allanol, yn hanfodol.

11.3 Gellir crynhoi rôl a chyfrifoldebau Ymddiriedolwyr unigol fel a ganlyn:

(a) gweithredu â phob bwriad da a gwneud yr hyn sydd orau i'r Llyfrgell;

(b) cadw at y safonau priodoldeb uchaf;

(c) rhoi amser a sylw iawn i'w dyletswyddau a'u datblygiad;

(ch) mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd ynghyd ag unrhyw gyfarfodydd perthnasol eraill;

(d) defnyddio'u sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol i fwydo penderfyniadau cynllunio a phenderfyniadau ar y cyd;

(dd) cynnal penderfyniadau corfforaethol unwaith y cânt eu gwneud, a'u hyrwyddo;

(e) parchu'r gwahaniaethau rhwng rôl a chyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol;

(f) cymryd rhan mewn arfarniad blynyddol o'u perfformiad eu hunain gyda'r Llywydd.

11.4 Disgwylir i Ymddiriedolwyr newydd eu penodi ddilyn rhaglen gynefino sy'n rhychwantu eu dyletswyddau fel Ymddiriedolwyr a'u rôl yng ngweithrediad y Llyfrgell ac fe'u cefnogir gan lawlyfr llywodraethiant.

11.5 Nid yw Ymddiriedolwyr yn derbyn tâl ond cânt hawlio costau teithio a chynhaliaeth am ddyletswyddau a gymeradwyir yn unol â'r cyfraddau sy'n berthnasol i gyrff tebyg a ariennir ag arian cyhoeddus.

- 11.6 Gwna Rheoliadau'r Llyfrgell ddarpariaethau ar gyfer rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau Ymddiriedolwyr gan gynnwys y trefniadau ar gyfer cynnal Cofrestr o Fuddiannau Ymddiriedolwyr ac ar gyfer gwneud datganiadau o fuddiannau mewn cyfarfodydd. Mae'r Rheoliadau hefyd yn delio gyda thrafod cynigion o roddion neu fuddion i Ymddiriedolwyr.

12 Dod i benderfyniadau

- 12.1 Yn eu cyfanrwydd, mae'r Bwrdd a'r Llyfrgell wedi ymrwymo i fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol wrth gyflawni eu rôl a'u cyfrifoldebau. Mae hyn yn golygu, ble'n bosib, fod penderfyniadau, polisïau ac arferion yn hygyrch i'r cyhoedd, ac yn ddealladwy i'r cyhoedd, a hynny trwy gyhoeddi papurau a phenderfyniadau allweddol, cynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus, ymgynghori â'r cyhoedd ar newidiadau o bwys i bolisïau ac ymchwilio i ddeall persbectifau'r cyhoedd a rhanddeiliaid.
- 12.2 Tra'n cadw at ei dyletswyddau dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth, safbwynt cyntaf y Llyfrgell (sy'n gyson ag amcan y Siarter) yw rhagdybio y dylai'r egwyddor o fod yn agored a rhoi mynediad at wybodaeth fod flaenllaw, onid oes budd clir i'r cyhoedd o beidio â datgelu neu gyfyngiad cyfreithiol arall.

13 Dirprwyo awdurdod

- 13.1 Mae'r Bwrdd wedi sefydlu cynllun o awdurdod dirprwyedig sy'n:
- (a) cadw rhai penderfyniadau allweddol i'r Bwrdd ble mae hyn naill ai'n ofynnol o dan y Siarter a'r Statudau neu'n angenrheidiol er mwyn i Ymddiriedolwyr oruchwyllo materion y Llyfrgell yn iawn;
 - (b) dirprwyo rheolaeth weithredol feunyddiol i'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, sydd hefyd wedi'i (g)rymuso i wneud penderfyniadau a dirprwyo awdurdod ymhellach o fewn y Tîm Gweithredol, ond y mae gofyn iddo/iddi esgoli materion risg uchel a/neu effaith uchel i'w hystyried yn amserol gan y Bwrdd a/neu un o bwyllgorau priodol y Bwrdd.

14 Rôl y Swyddogion: Llywydd, Is-lywydd a Thrysorydd

14.1 Y Llywydd

- (a) Y Llywydd sy'n cadeirio'r Bwrdd Ymddiriedolwyr. Fel Cadeirydd Corff a Noddir gan Llywodraeth Cymru, y Llywydd hefyd yw'r prif bwynt cyswllt gydag Ysgrifennydd y Cabinet sy'n noddi yn Llywodraeth Cymru.
- (b) Gellir crynhoi dyletswyddau'r Llywydd fel a ganlyn:
 - (i) Cadeirio holl gyfarfodydd y Bwrdd;
 - (ii) Cadeirio Pwyllgorau eraill y Llyfrgell (ac eithrio'r Pwyllgor Archwilio) fel y pennir gan y Bwrdd;

- (iii) Cwrdd ag Ysgrifennydd y Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r Llyfrgell;
 - (iv) Dod i gyswllt â Swyddogion ac Ymddiriedolwyr eraill yn ôl yr angen;
 - (v) Dod i gyswllt â'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a Rheolwr Llywodraethiant a'r Clerc i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn ôl yr angen;
 - (vi) Cynrychioli'r Llyfrgell yn ei thrafodion gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru, yn bennaf pan fydd Ysgrifennydd y Cabinet neu Bwyllgor y Cynulliad ynghlwm; a
 - (vii) Chynrychioli'r Llyfrgell yn allanol.
- (c) Y Llywydd sydd hefyd yn arwain gwaith y Bwrdd ac mae hyn yn cynnwys:
- (i) **Cynrychioli safbwynt y Bwrdd yn effeithiol ac yn gywir** wrth gyfarwyddo datblygiad strategol y Llyfrgell, ei pholisïau a'i chynlluniau, ac wrth ddatblygu perthnasoedd allweddol y Llyfrgell gyda Llywodraeth Cymru, cyrff y sector a rhanddeiliaid pwysig eraill;
 - (ii) **Sicrhau bod y Llyfrgell** yn cyflawni ei hamcan dan y Siarter yn effeithiol, ynghyd â'i swyddogaethau a'i dyletswyddau cyffredinol ac yn ymarfer ei phwerau cyfreithiol yn briodol; gwireddu strategaethau'r Bwrdd a'i gynlluniau, a darparu ei gwasanaethau yn unol â thargedau a dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt; ac (ar y cyd â'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd), cyfathrebu ei chynlluniau a'i chyraeddiadau i randdeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd, Llywodraeth Cymru a staff y Llyfrgell.
 - (iii) **Goruchwyllo a gweithio gyda'r Bwrdd i:**
 - sicrhau bod Aelodau'n gweithredu'n unol ag arfer gorau llywodraethiant mewn ffordd sy'n briodol i Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru;
 - uchafu effeithiolrwydd y Bwrdd, yn unigol ac ar y cyd, sefydlu strwythurau, systemau a phrosesau llywodraethiant, eu monitro a'u hadolygu;
 - cyfarwyddo'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, ei g/chefnogi a'i r(h)eoli gan gynnwys cytuno ar amcanion ac ymgymryd ag arfarniad blynyddol, yn dilyn ymgynghoriad ag Aelodau eraill y Bwrdd;
 - (iv) **Gweithio gyda Llywodraeth Cymru** i sicrhau penodiad Ymddiriedolwyr â'r amrediad sgiliau a'r cymwyseddau angenrheidiol i sicrhau Bwrdd effeithiol a chynrychiadol sydd â'r gallu i wneud yr hyn sydd orau dros y Llyfrgell, a sicrhau eu bod yn cael eu cynefino a'u cefnogi mewn ffordd effeithiol.

14.2 Yr Is-lywydd

Ceir darpariaeth yn Siarter y Llyfrgell i'r Is-lywydd, yn absenoldeb y Llywydd, neu os nad yw'r Llywydd yn medru gweithredu oherwydd salwch, neu pan na fydd Llywydd wedi'i benodi, weithredu pob un o swyddogaethau'r Llywydd.

14.3 Y Trysorydd

- (a) Y Trysorydd yw'r Ymddiriedolwr arweiniol ar holl faterion yn ymwneud ag arian y Llyfrgell a'i chyfrifon. Mae hyn yn golygu trafodaethau rheolaidd gydag uwch staff a Swyddfa Archwilio Cymru (sef archwilwyr statudol y Llyfrgell) a'r Trysorydd sy'n gyfrifol am gyflwyno'r Cyfrifon Blyneddol i'r Bwrdd a'u hargymell.
- (b) Cynorthwyr y Trysorydd gan Bwyllgor Cynllunio Ariannol y Bwrdd, sy'n sicrhau bod modd craffu'n fanylach ar fanylion materion ariannol y Llyfrgell a rheolaeth ei chronfeydd preifat nag y gellid ei wneud yng nghyfarfodydd llawn y Bwrdd.
- (c) Mae'r Trysorydd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn rhinwedd ei swydd.
- (ch) Gellir galw'r Trysorydd gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol pan fydd yn ystyried cyfrifon y Llyfrgell neu faterion eraill yn ymwneud â materion ariannol y Llyfrgell.
- (d) Nid swydd weithredol yw rôl y Trysorydd. Y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd yw Swyddog Cyfrifo'r Llyfrgell a benodir gan Lywodraeth Cymru dan y **Cytundeb Fframwaith** ac fel y cyfryw mae'n atebol yn bersonol i'r Bwrdd ac i Lywodraeth Cymru am briodoldeb yr arian cyhoeddus a roddir i'r Llyfrgell a'r defnydd effeithlon ohono.
- (dd) Gweithia'r Trysorydd yn agos gyda'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a Chyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, gan gynnig cyngor yn ôl yr angen, egluro materion y mae'n teimlo eu bod angen sylw'r Bwrdd ac ystyried ar bob adeg gydgryfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr mewn materion ariannol.

15 Perthnasoedd gyda Gweinidogion Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru

- 15.1 Mae'r Llyfrgell yn atebol i Lywodraeth Cymru am yr arian cyhoeddus y mae'n ei dderbyn trwy'r **Cytundeb Fframwaith**, trwy gyfarfodydd monitro rheolaidd gyda MALD, trwy'r archwiliad blyneddol o gyfrifon y Llyfrgell gan Swyddfa Archwilio Cymru (sef archwilwyr statudol y Llyfrgell), paratoi datganiad ar lywodraethiant; a chyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn rhwng y Llywydd (yng nghwmni'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd) ac Ysgrifennydd y Cabinet sy'n noddi ynghylch materion yn ymwneud â pherfformiad a blaenoriaethau.
- 15.2 Mae Lywodraeth Cymru, fel rhan o'r **Cytundeb Fframwaith**, yn nodi amcanion a dangosyddion perfformiad allweddol i'w cyflawni gyda'r nawdd a ddarperir mewn [Llythyr Cylch Gwaith](#) blyneddol.

16 Y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd

16.1 Y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd yw Prif Swyddog Gweithredol y Llyfrgell a phrif gynghorydd y Bwrdd ac mae ganddo/ganddi awdurdod dirprwyedig i reoli'r Llyfrgell o ddydd i ddydd. Fel y cyfryw, y Llyfrgellydd sy'n gyfrifol am arwain y Tîm Gweithredol a'i staff wrth:

- (a) gyflawni amcanion statudol y Llyfrgell, ei swyddogaethau a'i dyletswyddau cyffredinol ac ymarfer ei phwerau cyfreithiol;
- (b) datblygu cynlluniau, rhaglenni a pholisiau i'r Bwrdd, eu hystyried a'u cymeradwyo;
- (c) gwireddu strategaethau a chynlluniau'r Bwrdd ar gyfer y dyfodol;
- (ch) cyflawni Cynlluniau Strategol a Gweithredol y Llyfrgell;
- (d) darparu gwasanaethau yn unol â thargedau/dangosyddion perfformiad y mae'r Bwrdd wedi cytuno arnynt, ac mewn ymateb i'r [Llythyr Cylch Gwaith](#);
- (dd) gweithredu fel Swyddog Cyfrifo'r Llyfrgell ac adrodd i Lywodraeth Cymru ar ddefnydd y Llyfrgell o arian cyhoeddus;
- (e) darparu gwybodaeth amserol i'r Bwrdd ar dargedau y cytunwyd arnynt.

16.2 Mae'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd hefyd yn gyfrifol yn ehangach am:

- (a) briodoldeb a rheoleidd-dra;
- (b) gweinyddu'n gall ac yn ddarbodus;
- (c) osgoi gwastraff ac afradlonedd;
- (ch) defnydd effeithiol ac effeithlon o'r adnoddau sydd ar gael;
- (d) trefniadaeth y Llyfrgell, ei staffio a'i rheolaeth;

a hefyd sicrhau bod y Tîm Gweithredol yn:

- (dd) gweithredu o fewn y lefelau awdurdod a ddirprwywyd gan y Bwrdd
- (e) esgoli materion risg uchel a/neu effaith uchel i'w hystyried yn amserol gan y Bwrdd;
- (f) cynnal rhyngwyneb effeithiol gydag Aelodau'r Bwrdd;
- (ff) darparu gwybodaeth gywir ac amserol i alluogi'r Bwrdd i gyflawni'i gyfrifoldebau llywodraethiant yn effeithiol;
- (g) cefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei rôl a'i gyfrifoldebau.

16.3 Gweithia'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd hefyd gyda'r Llywydd i ddatblygu perthnasoedd y Llyfrgell gyda rhanddeiliaid allweddol ac i gyfathrebu cynlluniau a chyraeddiadau mor eang â phosib.

17 Rôl Aelodau'r Tîm Gweithredol

17.1 Mae gan bob aelod o'r Tîm Gweithredol feysydd cyfrifoldeb penodol sy'n gofyn am arbenigedd penodol ac mae disgwyl iddynt hefyd:

- (a) sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gyflawni strategaeth y Llyfrgell yn erbyn cynlluniau y cytunwyd arnynt, neu â mynediad at y sgiliau a'r wybodaeth hynny;
- (b) rheoli'r Llyfrgell o fewn y lefelau awdurdod dirprwyedig y cytunwyd iddynt;
- (c) sicrhau y caiff Ymddiriedolwyr wybodaeth gywir ac amserol i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol;
- (ch) cyflwyno dadansoddiad o reolaeth risg allweddol yn rheolaidd er cymeradwyaeth y Bwrdd, ac esgoli materion risg uchel/effaith uchel yn unol â'r gofrestr rheoli risg y cytunwyd arni;
- (d) codi materion/themâu a allai fod angen trafodaeth/ystyriaeth ar gyfer cynlluniau'r dyfodol, a hynny mewn ffordd ragweithiol;
- (dd) defnyddio mecanweithiau ffurfiol ac anffurfiol i alluogi Aelodau'r Bwrdd i gyfrannu eu sgiliau a'u gwybodaeth arbenigol a'u harbenigedd a darparu cymorth;
- (e) arwain ar ddatblygu cynlluniau, rhaglenni a pholisïau er cymeradwyaeth y Bwrdd;
- (f) ceisio mewnbwn cynnar gan Aelodau'r Bwrdd er mwyn adnabod materion fydd angen sylw i ennill cymeradwyaeth y Bwrdd;
- (ff) ceisio cyfleoedd i siarad er mwyn deall pryderon/persbectifau'r Bwrdd;
- (g) cymryd cyfrifoldeb dros egluro'r cynigion/argymhellion; a
- (ng) darparu cymorth priodol i hwyluso rhediad llyfn trafodion y Bwrdd ac Ymddiriedolwyr.

18 Y Berthynas rhwng y Bwrdd, y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a'r Tîm Gweithredol

18.1 Yr Ymddiriedolwyr yw awdurdod llywodraethol y Llyfrgell, ond fel Bwrdd anweithredol mae'n dibynnu ar y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a'r Tîm Gweithredol (sy'n gweithredu o fewn amrediad eu hawdurdod dirprwyedig a'r trefniadau adrodd), am gyngor i alluogi'r Ymddiriedolwyr i ffurfio amcanion strategol y Llyfrgell ac am ddarpariaeth weithredol gwasanaethau'r Llyfrgell a'u heffeithiolrwydd. Nod y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol ar bob adeg yw gweithredu mewn ffordd sy'n cefnogi'i gilydd i gyflawni hyn.

19 Polisiau Adnoddau Dynol

- 19.1 Cyflogir staff y Llyfrgell ar amodau a thelerau a pholisiau cyflogaeth y Llyfrgell ei hun. Polisi cyffredinol y Llyfrgell, pa bryd bynnag y bydd yn ymarferol, ac o fewn cyfyngiadau adnoddau, yw glynu at arfer gorau'r sector cyhoeddus mewn perthynas â'r ffordd y mae'n rheoli staff y Llyfrgell.

20 Cysylltiadau Rhwng y Cyflogwr a Staff

- 20.1 Mae'r Llyfrgell yn cydnabod Undebau Llafur Prospect, PCS ac FDA at ddibenion bargeinio ar y cyd ac ymgynghori.
- 20.2 Ffurfiodd y Llyfrgell a'r Undebau Gytundeb Partneriaeth i arwain eu perthnasoedd.

21 Cynllun Pensiwn

- 21.1 Ar hyn o bryd, mae'r Llyfrgell yn gweithredu cynllun pensiwn cyflog terfynol â buddion wedi'u diffinio. Gosodir cyfraniadau'r cyflogwr yn unol ag asesiad yr Actwari yn y prisiad teirblwydd.
- 21.2 Rheolir y cynllun pensiwn dan delerau Gweithred Ymddiriedolaeth gan yr Ymddiriedolwyr. Penodir yr Ymddiriedolwyr o blith aelodaeth weithgar y Cynllun (2), pensiynwyr (1), a chynrychiolwyr Bwrdd y Llyfrgell (4). Gosodir cyfansoddiad y Bwrdd Ymddiriedolwyr yn unol â gofynion deddfwriaethol a chanllawiau a gyhoeddir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.
- 21.3 Mae'r gronfa'n ddarostyngedig i ailbrisiad actwariaidd o bryd i'w gilydd i sicrhau y bydd y gronfa'n gallu bodloni ei rhwymedigaethau gydag amser.
- 21.4 Mae'r gronfa'n ddarostyngedig i oruchwyliaeth reoleiddio gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.
- 21.5 Eithriwyd y Cynllun rhag rhai agweddau ar y drefn reoleiddio gan y rhoddwyd iddo Warrant y Goron gan Lywodraeth Cymru.
- 21.6 Gall y Llyfrgell ddewis newid telerau'r Cynllun, neu sefydlu trefniadau cyfrannu eraill wedi'u diffinio (dan ymddiriedaeth neu gontract fel sy'n briodol) mewn ymateb i'w hanghenion busnes.

22 Cronfeydd Preifat

- 22.1 Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am reoli cronfeydd preifat a gynhyrchwyd dros sawl blwyddyn o roddion, cymynroddion ac incwm o reoli cronfeydd a thwf cyfalaf. Mae'n ofyniad gan y Llyfrgell yn ôl Deddf Ymddiriedolwyr 2000 i fabwysiadu Polisi Buddsoddi ar gyfer ei chronfeydd preifat.
- 22.2 Amcanion cyfredol portffolio buddsoddiad y Llyfrgell yw ychwanegu at yr arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn:

- (a) Ariannu caffaeliad asedau cyfalaf gan gynnwys cyfarpar, adeiladau a chaledwedd a meddalwedd gyfrifiadurol;
- (b) Prynu eitemau i alluogi'r Llyfrgell i gyflawni ei pholisi casgliadau;
- (c) Ategu at gostau refeniw darparu gwasanaethau'r Llyfrgell at ddibenion penodol neu am gyfnodau penodol o amser;
- (ch) Ar gyfer cronfeydd cyfyngedig, defnyddio'r arian yn unol â thelerau'r gymynrodd

22.3 Rheolir y cronfeydd preifat ar ran y Llyfrgell gan reolwyr cronfa proffesiynol yn unol â Pholisi Buddsoddi'r Llyfrgell a chânt eu goruchwylio gan y Pwyllgor Cynllunio Ariannol.

22.4 Yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau, ni ystyria'r Ymddiriedolwyr fod unrhyw achos penodol i atal buddsoddiad mewn unrhyw gwmni ar y sail y gallai eu gweithgarwch fod yn groes i amcanion y Llyfrgell ac maent yn cydnabod, fel elusen, ei bod yn ddyletswydd ar y Llyfrgell i gyflawni'r dychweliad cyffredinol gorau ar ei buddsoddiadau er mwyn parhau i hyrwyddo'i hamcanion dan ei Siarter.

22.5 Serch hynny, noda Polisi Buddsoddi'r Ymddiriedolwyr na fuasai'r Ymddiriedolwyr yn dymuno buddsoddi ei chronfeydd yn uniongyrchol mewn unrhyw gwmni neu ddsbarth buddsoddiadau a fyddai'n golygu risg sylweddol i enw da'r Llyfrgell fel sefydliad cenedlaethol a ariennir i raddau helaeth gan arian cyhoeddus, ac a fyddai o ganlyniad yn peryglu'r gallu i hyrwyddo amcan y Llyfrgell dan ei Siarter. Yn unol â hynny, mewn unrhyw achos ble mae yna amheuaeth ynghylch buddsoddiad penodol, mae rheolwr cronfeydd y Llyfrgell dan gyfarwyddyd i ymgynghori â'r Llyfrgell i ofyn am gymeradwyaeth benodol.

23 Polisiau'r Llyfrgell

23.1 O bryd i'w gilydd, mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn mabwysiadu polisiau y bwriedir iddynt arwain gweithrediad agweddau amrywiol ar faterion ariannol a gweithgarwch gweithredol y Llyfrgell. Ceir rhestr o bolisiau cyfredol y Llyfrgell a dyddiad eu mabwysiadu yn Atodiad 4. Gellir cael hyd i'r polisiau ar [wefan y Llyfrgell](#).

ATODIAD 1

PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG

CYLCH GORCHWYL

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Awst 2015

Adolygwyd Tachwedd 2016, ac adolygwyd ymhellach Awst 2018

Cyflwyniad

Mabwysiadwyd Cylch Gorchwyl cyntaf y Pwyllgor Archwilio a Risg gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr yn ei gyfarfod yn Wrecsam ym mis Tachwedd 2010. Lluniwyd y Cylch Gorchwyl diwygiedig hwn yn sgil cyhoeddi archwiliad annibynnol, a gomisiynwyd gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr, ac a gynhaliwyd gan Pricewaterhouse Coopers, a gynigiodd nifer o argymhellion i wneud gwelliannau i drefn lywodraethu'r Llyfrgell. Gan fod nifer o'r argymhellion naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gysylltiedig â chwmpas gwaith y Pwyllgor Archwilio a Risg, ystyrid hyn fel cyfle i ddiwygio'r Cylch Gorchwyl a chynnwys hefyd yr argymhellion y cytunwyd arnynt.

Y Cylch Gorchwyl

1. Dyletswyddau

1.1 Adrodd ariannol

Bydd y Pwyllgor yn adolygu a herio lle y bo angen

- 1.1.1 (a) gysondeb, ac unrhyw newidiadau i, bolisiau cyfrifyddu ar sail flynyddol;
- (b) y dulliau a ddefnyddir i gyfrif am drafodion sylweddol neu anarferol lle mae dulliau gwahanol yn bosibl;
- (c) a yw'r Llyfrgell wedi dilyn safonau cyfrifyddu priodol ac wedi amcangyfrif a dyfarnu'n briodol, gan ystyried barn yr archwilydd allanol;
- (ch) eglurder y datganiadau a ddatgelir yn adroddiadau ariannol y Llyfrgell a chyd-destun y datganiadau; a'r
- (d) holl wybodaeth berthnasol a gyflwynir gyda'r datganiadau ariannol, megis y datganiad llywodraethiant (i'r graddau y mae'n berthnasol i archwilio a rheoli risg).

1.2 Rheolaeth Fewnol a systemau rheoli risg

Bydd y Pwyllgor yn

- 1.2.1 (a) cadw golwg ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaeth fewnol ac ariannol y Llyfrgell a systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg; ac
- (b) adolygu a chymeradwyo'r datganiadau i'w cynnwys yn adroddiad blynyddol y Llyfrgell a'r cyfrifon am reolaeth fewnol a rheoli risg.

1.3 Cydymffurfio, chwythu'r chwiban a thwyll

Bydd y Pwyllgor yn

- 1.3.1 (a) sicrhau bod polisi a gweithdrefn chwythu'r chwiban addas yn eu lle sy'n caniatáu i'w staff a'i chontractwyr leisio pryderon, yn gyfrinachol, am esgeulustra posibl o ran adrodd

ariannol neu faterion eraill. Bydd y pwyllgor yn sicrhau bod y trefniadau hyn yn caniatáu proses gymesur ac annibynnol i ymchwilio i'r cyfryw faterion a chamau dilynol priodol;

(b) sicrhau bod polisi a gweithdrefn gwrth-dwyll a gwrth-lwgrwobrwyo yn eu lle a'i fod yn derbyn adroddiadau am ddiffyg cydymffurfio â'r polisiau a'r gweithdrefnau hyn.

1.4 Archwiliad Mewnol

Bydd y Pwyllgor yn

- 1.4.1 (a) adolygu a monitro annibyniaeth a gwrthrychedd yr archwilydd mewnol ac effeithiolrwydd swyddogaeth archwilio mewnol y Llyfrgell;
- (b) cymeradwyo'r broses o benodi a chael gwared ar yr archwilydd mewnol;
- (c) bodloni ei hun nad oes gwrthdaro buddiannau rhwng yr archwilydd a'r Llyfrgell (ac eithrio yn ystod busnes arferol)
- (ch) trafod, cytuno, adolygu ac asesu'r cynllun archwilio mewnol blynyddol;
- (d) adolygu adroddiadau gan yr archwilydd mewnol i'r pwyllgor; (dd) adolygu a monitro ymateb y tîm gweithredol i ganfyddiadau ac
- (dd) argymhellion yr archwilydd mewnol;
- (e) cyfarfod y partner archwiliad mewnol o leiaf bob blwyddyn, heb i'r tîm gweithredol fod yn bresennol, i drafod y cylch gorchwyl ac unrhyw faterion sy'n deillio o'r archwiliadau mewnol a wnaed. Bydd hawl gan y partner archwilio i gael mynediad uniongyrchol nid yn unig at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ond hefyd at y Llywydd.

1.5 Archwiliad Allanol

Bydd y Pwyllgor yn

- 1.5.1 (a) adolygu a monitro effeithiolrwydd yr archwilydd allanol a fydd yn cynnwys adroddiad gan yr archwilydd allanol am eu gweithdrefnau ansawdd mewnol;
- (b) goruchwyllo'r berthynas â'r archwilydd allanol yn cynnwys (ond heb ei gyfyngu i) (i) argymhellion ynglŷn â'u ffioedd ar gyfer gwasanaethau archwilio ac eraill, a bod lefel y ffioedd yn briodol i allu cynnal archwiliad digonol; (ii) cymeradwyo eu telerau penodi, yn cynnwys unrhyw lythyr penodi a gyflwynwyd ar ddechrau pob archwiliad a chwmpas yr archwiliad; (iii) bodloni ei hun nad oes gwrthdaro buddiannau rhwng yr archwilydd a'r Llyfrgell (ac eithrio yn ystod busnes arferol); (iv) ceisio sicrhau y cydlynir â gweithgareddau rheoli a'r archwilydd mewnol.

Bydd gan y Pwyllgor hefyd

- 1.5.2 fynediad at adnoddau digonol i gyflawni ei ddyletswyddau, yn cynnwys mynediad at ysgrifenyddiaeth y Llyfrgell i gael cymorth yn ôl yr angen

- 1.5.3 yn cael hyfforddiant priodol ac amserol, drwy raglen gynefino ar gyfer aelodau newydd ac yn barhaus i'r holl aelodau
- 1.5.4 Bydd yn gyfrifol am gydlynw archwilywyr mewnol ac allanol
- 1.5.5 Bydd yn goruchwyllo unrhyw ymchwiliad o weithgareddau sydd o fewn ei gylch gorchwyl
- 1.5.6 Trefnu adolygiadau cyfnodol o'i berfformiad ei hun, ac o leiaf yn flynyddol, bydd yn adolygu ei gyfansoddiad a'i Gylch Gorchwyl i sicrhau ei fod yn gweithredu mor effeithiol â phosibl ac yn argymhell unrhyw newidiadau y mae'n ystyried y mae angen eu gwneud i'r Bwrdd eu cymeradwyo

2. Cyfansoddiad

- 2.1. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn bwyllgor sefydlog o Fwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- 2.2. Gall y Bwrdd ddiwygio ei gylch gorchwyl unrhyw bryd
- 2.3. O bryd i'w gilydd, gall ymchwilio, trafod neu adolygu materion y tu allan i'w gylch gorchwyl os bydd angen gwneud hynny'n ôl y Bwrdd

3. Awdurdod

Mae'r pwyllgor wedi ei awdurdodi i

- 3.1. gael unrhyw wybodaeth angenrheidiol gan unrhyw aelod o staff y Llyfrgell er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau
- 3.2. galw ar unrhyw aelod o staff i gael ei gwestiynu mewn cyfarfod o'r pwyllgor pryd a phan fo'n ofynnol
- 3.3. bod â'r hawl i gyhoeddi yn y Datganiad Llywodraethiant fanylion unrhyw faterion na ellir eu datrys rhwng y pwyllgor a'r Bwrdd.

4. Aelodaeth

Bydd aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg fel a ganlyn:

- 4.1 Penodir pum aelod o'r pwyllgor gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr o blith ei aelodau
- 4.2 Bydd y Trysorydd yn aelod "ex officio" o'r pwyllgor
- 4.3 Penodir dau aelod annibynnol drwy gystadleuaeth agored
- 4.4 Cadeirydd y pwyllgor fydd un o Ymddiriedolwyr y Llyfrgell ac fe'i penodir gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr
- 4.5 Ni fydd Cadeirydd y pwyllgor yn aelod o unrhyw bwyllgor ariannol arall a berthyn i'r Bwrdd
- 4.6 Ni fydd Llywydd y Llyfrgell, sy'n Gadeirydd y Bwrdd, yn aelod o'r pwyllgor
- 4.7 Bydd penodiadau i'r pwyllgor am gyfnod o hyd at bedair blynedd. Gellir eu hystyngw am gyfnod pellach o hyd at bedair blynedd
- 4.8 Mae Clerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ysgrifennydd i'r pwyllgor

Gall y Pwyllgor Archwilio a Risg gyda chymeradwyaeth y Bwrdd:

- 4.9 Gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod o ddim mwy na dwy flynedd i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol;

- 4.10 Cael cyngor arbenigol ad hoc ar gost y Llyfrgell, yn amodol ar gyllidebau y cytunir arnynt gan y Bwrdd.

5. Presenoldeb mewn Cyfarfodydd

- 5.1 Y cworwm angenrheidiol ar gyfer cyflawni busnes y pwyllgor fydd o leiaf tri aelod o'r pwyllgor (gan gynnwys y Cadeirydd)
- 5.2 Aelodau'r pwyllgor yn unig sydd â'r hawl i fynychu cyfarfodydd y pwyllgor. Fodd bynnag, gellir gwahodd unigolion eraill, fel aelodau'r Tîm Gweithredol a staff i fynychu'r cyfarfod cyfan neu ran ohono pryd ac fel y bo angen
- 5.3 Ar gais y pwyllgor bydd cynrychiolwyr yr archwilwyr mewnol ac allanol yn mynychu cyfarfodydd
- 5.4 Gall cynrychiolydd Llywodraeth Cymru fynychu un cyfarfod y flwyddyn fel sylwedydd a bydd egwyddorion hyd braich yn berthnasol
- 5.5 Gall y Cadeirydd ofyn i unrhyw un neu i bob un sy'n bresennol ond heb fod yn aelodau ymneilltuo o'r cyfarfod i hwyluso trafodaeth agored ac onest am faterion neilltuo
- 5.6 Nid oes gan aelodau cyfetholedig hawliau pleidleisio, ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y cworwm sydd ei angen ar gyfer cyflawni busnes y pwyllgor

6. Amllder cyfarfodydd

- 6.1 Cynhelir cyfarfodydd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ar adegau priodol yn y cylch archwilio ac adrodd, ac fel arall yn ôl yr angen
- 6.2 Gall Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg gynnwys cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen
- 6.3 Gall y Bwrdd neu'r Swyddog Cyfrifo gynnwys cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen
- 6.4 Hefyd gellir cynnwys cyfarfodydd ychwanegol ar gais yr archwilwyr allanol neu fewnol

7. Gosod Agenda

- 7.1 Cyn bob cyfarfod, dylai'r Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a'i swyddogion a Chlerc y Bwrdd, gytuno ar y busnes ar gyfer y cyfarfod. Dylai'r Cadeirydd berchnogi'r penderfyniadau, a bod â'r gair olaf, ynglŷn â pha fusnes yr ymdrinnir ag ef mewn unrhyw gyfarfod penodol.

8. Hysbysu ynghylch cyfarfodydd

- 8.1 Anfonir hysbysiad ynghylch bob cyfarfod yn cadarnhau'r lleoliad, yr amser a'r dyddiad ynghyd â rhaglen eitemau i'w trafod a phapurau atodol, at bob aelod o'r pwyllgor ac unrhyw un arall a ddylai fod yn bresennol ddim hwyrach na saith diwrnod gwaith cyn y Cyfarfod

9. Cofnodion cyfarfodydd

- 9.1 Bydd Clerc y Bwrdd yn cofnodi trafodion a phenderfyniadau holl gyfarfodydd y pwyllgor, yn cynnwys cofnodi enwau'r rhai sy'n bresennol ac yn mynychu'r cyfarfod
- 9.2 Bydd y cofnodion yn cofnodi'n glir natur unrhyw fuddiant sy'n cael ei ddatgan a dylid cynnal asesiad risg o'r buddiannau hyn er mwyn ystyried sut y gellir rheoli'r buddiannau hyn a'u lliniaru ar lefel ymarferol

- 9.3 Bydd cofnodion cyfarfodydd y pwyllgor fel arfer yn cael eu hystyried yng nghyfarfod y Bwrdd yn dilyn cyfarfod o'r pwyllgor

10. Cyfathrebu

- 10.1 Ar ôl pob cyfarfod, dylai'r Cadeirydd sicrhau bod adroddiadau perthnasol yn cael eu paratoi gan y Pwyllgor Archwilio a Risg i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr os yw'n briodol
- 10.2 Dylai'r Cadeirydd sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn darparu Adroddiad Blynyddol addas i'r Bwrdd
- 10.3 Dylai'r Cadeirydd gael cyfarfodydd dwyochrog o leiaf bob blwyddyn gyda'r Swyddog Cyfrifo, y Partner Archwilio Mewnol a'r Archwilydd Allanol a gyda Chadeirydd y Bwrdd. Yn ychwanegol at hyn, dylai'r Cadeirydd gyfarfod unrhyw bobl a benodir o'r newydd i'r swyddi hyn cyn gynted ag y mae'n ymarferol bosibl ar ôl eu penodi
- 10.4 Dylai'r Cadeirydd hefyd sicrhau fod gan bob aelod o'r Pwyllgor raglen rhyngweithio addas gyda'r Llyfrgell a'i gweithgareddau er mwyn deall diwylliant y sefydliad
- 10.5 Bydd gan gynrychiolwyr Archwiliadau Mewnol ac Allanol fynediad rhydd, uniongyrchol a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg

11. Arfarnu Perfformiad

- 11.1 Arfarnu Aelodau: Dylai'r Cadeirydd, gyda chymorth Clerc y Bwrdd, gymryd rôl arweiniol i sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor yn derbyn arfarniad priodol o'u perfformiad fel aelod o'r Pwyllgor a bod eu hanghenion hyfforddiant yn cael eu nodi ac yn cael sylw. Dylai'r Cadeirydd geisio werthuso ei berfformiad / pherfformiad gan Gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
- 11.2 Arfarniad Archwiliad Mewnol: Dylai'r Cadeirydd sicrhau bod y trefniadau priodol a'r dangosyddion perfformiad yn eu lle i fonitro perfformiad Archwiliad Mewnol
- 11.3 Dylai'r Cadeirydd sicrhau bod adolygiad cyfnodol o effeithiolrwydd cyffredinol y Pwyllgor Archwilio a Risg a'i Gylch Gorchwyl

12. Dirprwyo pwerau gan y Bwrdd

- 12.1 Nid oes unrhyw bwerau wedi ei dirprwyo gan y Bwrdd ac eithrio'r rhai sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r uchod.

ATODIAD 2

PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT A PHERFFORMIAD

CYLCH GORCHWYL

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Hydref 2015

Adolygwyd Tachwedd 2016; adolygwyd ymhellach Awst 2018

Cyflwyniad

Ym mis Medi 2015, penderfynodd Bwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell Genedlaethol sefydlu Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad a chafodd y Cylch Gorchwyl ei fabwysiadu gan yr Ymddiriedolwyr yn eu cyfarfod yn Aberystwyth ym mis Tachwedd 2015. Nod y Pwyllgor yw adeiladu ar waith y Tasglu Llywodraethiant a fu'n cwrdd ym misoedd Gorffennaf ac Awst 2015 yn dilyn cyhoeddi adroddiad PwC a chynorthwyo'r Llyfrgell i gynnal a darparu gwasanaethau o safon uchel, trwy gynnig cefnogaeth gyson a pharhaus er gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Yn benodol, bydd yn: (1) monitro safonau cyflawni gwasanaethau a pherfformiad; (2) adolygu polisiau ac arferion; a (3) hwyluso trafodaeth adeiladol rhwng yr Ymddiriedolwyr a'r Tîm Gweithredol (4) paratoi adolygiadau gwrthrychol o berfformiad ar gyfer y Bwrdd.

Cylch Gorchwyl

1. Cyfrifoldebau'r Pwyllgor

Bydd y Pwyllgor yn:

- 1.1 Cefnogi'r Tîm Gweithredol i gyflawni rôl ragweithiol mewn cynllunio strategol:
- 1.2 Cytuno, adolygu a chraffu ar ddangosyddion cyflawni, sef Dangosyddion Edrych Tuag Allan a Dangosyddion Cyflawni Allweddol, fel ei gilydd;
- 1.3 Adolygu a/neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd parthed cyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Llyfrgell;
- 1.4 Llunio adroddiadau ac/neu argymhellion i'r Bwrdd a'r/neu'r Tîm Gweithredol parthed cyflawni unrhyw swyddogaeth;
- 1.5 Monitro ac adolygu polisiau ac arferion y gwasanaethau a ddarperir gan y Llyfrgell, ei phartneriaid a chontractwyr o fewn cylch gwaith y Pwyllgor;
- 1.6 Gwerthuso llwyddiant polisiau ac arferion y Llyfrgell wrth ddarparu gwasanaethau trwy graffu ar eu heffeithiolrwydd a'u priodoldeb, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau, perfformiad, cyflenwi gwasanaethau a'r effaith ar ddefnyddwyr y gwasanaethau. Gwneud argymhellion ar ddatblygu polisiau'r dyfodol.
- 1.7 Monitro ac adolygu'r modd y gweithredir adolygiadau llywodraethiant allanol annibynnol
- 1.8 Adolygu neu graffu ar y penderfyniadau a wnaed gan y Tîm Gweithredol, ac o ran y penderfyniadau a wnaed neu na roddwyd ar waith i argymhell bod y penderfyniadau hynny yn cael eu hailystyried.
- 1.9 Adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed, neu gamau a gymerwyd parthed swyddogaethau nad sy'n gyfrifoldeb i'r Tîm Gweithredol.
- 1.10 Cynnal adolygiadau penodol ar wasanaethau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, yn unol â chais Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, ac adrodd yn ôl ar faterion sy'n effeithio ar y gwasanaethau hynny.
- 1.11 Monitro a gwerthuso perfformiad a derbyn adroddiadau ar faterion sy'n berthnasol i ddarpariaeth Cynllun Strategol y Llyfrgell

- 1.12 Cytuno ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a Dangosyddion Perfformiad Gwasanaethau blynyddol, a cheisio cymeradwyaeth y Bwrdd.

2. Cyfansoddiad

- 2.1 Mae'r Pwyllgor wedi' i ffurfio fel un o bwyllgorau sefydlog Bwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- 2.2 Gellir diwygio ei gylch gorchwyl ar unrhyw adeg gan y Bwrdd
- 2.3 O bryd i'w gilydd, gall ymchwilio, trafod neu adolygu materion y tu hwnt i'w gylch gorchwyl pe bai'r Bwrdd yn gofyn am hynny.

3. Awdurdod

Mae awdurdod gan y Pwyllgor

- 3.1 i ofyn am unrhyw wybodaeth y mae ei hangen gan unrhyw aelod o staff y Llyfrgell er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau
- 3.2 i alw ar unrhyw aelod o staff i gymryd rhan mewn trafodaethau yng nghyfarfod o'r Pwyllgor pe bai angen
- 3.3 i gael yr hawl i gyhoeddi yn y Datganiad Llywodraethiant fanylion o faterion na all y Pwyllgor a'r Bwrdd eu datrys rhyngddynt

4. Aelodaeth

Aelodau'r Pwyllgor fydd:

- 4.1 Pedwar Ymddiriedolwr a benodir gan y Bwrdd o blith ei aelodau ac wedi'u dewis oherwydd eu hamrywiaeth briodol o sgiliau a phrofiad
- 4.2 Bydd y Cadeirydd yn Ymddiriedolwr y Llyfrgell ac wedi'i ph/benodi gan y Pwyllgor
- 4.3 Bydd y penodiadau i'r Pwyllgor am gyfnod o hyd at bedair blynedd, a gellir ymestyn y cyfnod hwn hyd at bedair blynedd ychwanegol.

Gyda chymeradwyaeth y Bwrdd gall y Pwyllgor:

- 4.4 Gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod heb fod yn fwy na dwy flynedd i rannu eu sgiliau arbenigol, gwybodaeth a phrofiad;
- 4.5 Caffael cyngor arbenigol byrfyfyr ar draul y Llyfrgell, yn amodol ar gyllidebau a gytunwyd gan y Bwrdd.

5. Presenoldeb yn y Cyfarfodydd

- 5.1. Y cworwm angenrheidiol i drafod busnes y Pwyllgor yw o leiaf tri aelod o'r Pwyllgor (gan gynnwys y Cadeirydd)
- 5.2 Bydd aelodau Tîm Gweithredol y Llyfrgell yn bresennol ym mhob cyfarfod i gyfranogi yn y trafodaethau ar faterion ac i gynorthwyo i ganfod atebion

- 5.3 Gall y Cadeirydd ofyn i unrhyw un neu i bawb sy'n arfer mynychu ond nad sy'n aelodau i ymadael er mwyn hwyluso trafodaeth agored ac onest ar faterion penodol
- 5.4 Nid oes gan aelodau cyfetholedig hawliau pleidleisio, ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y cworwm sydd ei angen ar gyfer cyflawni busnes y pwyllgor

6. Amlder Cyfarfodydd

- 6.1 Cynhelir cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn o leiaf
- 6.2 Gall Cadeirydd y Pwyllgor alw cyfarfodydd ychwanegol pe bai'n credu bod angen hynny
- 6.3 Gall y Bwrdd alw cyfarfodydd ychwanegol o'r Pwyllgor hwn pe bai'n credu bod angen hynny

7. Gosod yr Agenda

- 7.1 Cyn bob cyfarfod, dylai'r Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc y Bwrdd, gytuno ar y busnes i'w drafod yn y cyfarfod. Dylai'r Cadeirydd gymryd perchnogaeth o'r penderfyniadau ynghylch pa fusnes a drafodir yn ystod unrhyw gyfarfod penodol ac ef/hi ddylai gael y gair olaf yn hynny o beth
- 7.2 Bydd yr agenda yn rhoi sylw i'r meysydd allweddol a nodwyd ynghynt nes eu bod wedi'u datrys yn llwyr, a bydd pob cyfarfod yn ystyried pa feysydd eraill y dylid eu nodi ar gyfer eu hystyried ochr yn ochr â meysydd eraill sy'n dal angen sylw parhaus

8. Hysbysu Cyfarfodydd

- 8.1 Bydd hysbysiad o bob cyfarfod sy'n cadarnhau'r man cyfarfod, amser a dyddiad ynghyd ag agenda o eitemau i'w trafod a phapurau ategol yn cael eu hanfon at bob aelod o'r Pwyllgor ac at unrhyw un arall sydd angen mynychu, a hynny ddim hwyrach na saith diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

9. Cofnodion y Cyfarfodydd

- 9.1 Bydd Clerc y Bwrdd yn cofnodi trafodion a phenderfyniadau pob cyfarfod o'r Pwyllgor gan gynnwys cofnodi enwau'r rhai sy'n bresennol ac yn mynychu
- 9.2 Bydd y cofnodion yn cofnodi'n eglur natur datganiad o fuddiant a dylid cynnal asesiad risg o'r buddiannau hyn er mwyn ystyried sut y gellir rheoli'r buddiannau hyn a lleihau eu heffeithiau andwyol, yn ymarferol.
- 9.3 Fel arfer, bydd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu hystyried yng nghyfarfod y Bwrdd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor

10. Cyfathrebu

- 10.1 Dylai'r Cadeirydd sicrhau bod adroddiadau perthnasol yn cael eu paratoi o'r Pwyllgor at Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar ôl pob cyfarfod, os yw'n briodol
- 10.2 Yn ogystal, dylai'r Cadeirydd sicrhau bod gan bob aelod o'r Pwyllgor raglen cydgysylltu addas â'r Llyfrgell a'i gweithgareddau fel bod modd iddynt ddeall diwylliant y sefydliad

11. Gwerthuso Effeithiolrwydd

- 11.1 Gan gydweithio'n agos â'r Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc y Bwrdd, dylai'r Cadeirydd sicrhau bod adolygiad yn cael ei gynnal bob hyn a hyn ar effeithiolrwydd cyffredinol y Pwyllgor a'i Gylch Gorchwyl

ATODIAD 3

PWYLLGOR CYNLLUNIO

ARIANNOL

CYLCH GORCHWYL

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Tachwedd 2016
Adolygwyd Awst 2018

Cyflwyniad

Yng nghyfarfod y Bwrdd yn Nhachwedd 2016 penderfynwyd sefydlu Pwyllgor Cynllunio Ariannol, a chytunwyd ar Gylch Gorchwyl y Pwyllgor. Gorchwyl y Pwyllgor yw ystyried a thrafod perfformiad ariannol y Llyfrgell, yn arbennig felly portffolio buddsoddiadau'r Llyfrgell a'r defnydd o gronfeydd preifat y Llyfrgell, perfformiad gweithgareddau masnachol y Llyfrgell, perfformiad ei ymgyrchoedd codi arian, ac i wneud argymhellion i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Y Cylch Gorchwyl

1. Cyfrifoldebau'r Pwyllgor

Bydd y Pwyllgor yn:

- 1.1 Cefnogi'r Trysorydd a'r Tîm Gweithredol i gyflawni rôl ragweithiol mewn blaengynllunio ariannol
- 1.2 Gwneud argymhellion i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr parthed materion ariannol
- 1.3 Monitro ac adolygu cynllunio a pherfformiad ariannol y Llyfrgell
- 1.4 Monitro perfformiad yn erbyn cyllideb y Llyfrgell, a darparu sicrwydd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr
- 1.5 Adolygu risgiau ariannol a goblygiadau prosiectau mawr
- 1.6 Adolygu perfformiad portffolio buddsoddiadau'r Llyfrgell a gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar bolisi a risgiau buddsoddi
- 1.7 Monitro perfformiad gweithgareddau masnachol y Llyfrgell ac ystyried unrhyw gynigion i sefydlu ffrydiau newydd o incwm
- 1.8 Monitro cymynroddion a rhoddion a pherfformiad ymgyrchoedd codi arian
- 1.9 Monitro ceisiadau am y defnydd o gronfeydd preifat y Llyfrgell a gwneud argymhellion i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr
- 1.10 Cynnal adolygiadau ar weithgareddau'r Llyfrgell yn unol ag unrhyw gais gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, ac adrodd yn ôl ar y materion hynny fel bo'n briodol

2. Cyfansoddiad

- 2.1 Mae'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol wedi ei ffurfio fel Pwyllgor sefydlog o Fwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- 2.2 Gellir diwygio ei Gylch Gorchwyl ar unrhyw adeg gan y Bwrdd
- 2.3 O bryd i'w gilydd, gall ymchwilio, trafod neu adolygu materion y tu allan i'w Gylch Gorchwyl petai'r Bwrdd yn gofyn am hynny.

3. Awdurdod

Mae'r Pwyllgor wedi ei awdurdodi i:

- 3.1 gael unrhyw wybodaeth angenrheidiol gan unrhyw aelod o staff y Llyfrgell er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau
- 3.2 galw ar unrhyw aelod o staff i i gymryd rhan mewn trafodaethau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor pe bai angen
- 3.3 bod a'r hawl i gyhoeddi yn y Datganiad Llywodraethiant fanylion unrhyw faterion na ellir eu datrys rhwng y Pwyllgor a'r Bwrdd

4. Aelodaeth

Bydd aelodaeth y Pwyllgor fel a ganlyn:

- 4.1 Pedwar Ymddiriedolwr wedi eu penodi gan y Bwrdd o blith ei aelodau ac wedi eu dewis oherwydd eu hamrywiaeth briodol o sgiliau a phrofiad; mi fydd y Trysorydd yn un o'r pedwar aelod yma
- 4.2 Y Trysorydd fydd yn llenwi rôl Cadeirydd y Pwyllgor
- 4.3 Bydd penodiadau i'r Pwyllgor am gyfnod o hyd at bedair blynedd, a gelir ymestyn y cyfnod hwn hyd at bedair blynedd ychwanegol
- 4.4 Mae Clerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ysgrifennydd i'r pwyllgor

Gall y Pwyllgor gyda chymeradwyaeth y Bwrdd:

- 4.4 Gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod heb fod yn fwy na dwy flynedd i ddarparu sgiliau arbenigol, gwybodaeth a phrofiad
- 4.5 Caffael cyngor arbenigol byrffyr ar draul y Llyfrgell, yn amodol ar gyllidebau a gytunwyd gan y Bwrdd

5. Presenoldeb mewn cyfarfodydd

- 5.1 Y cworwm angenrheidiol ar gyfer cyflawni busnes y Pwyllgor fydd o leiaf tri aelod o'r Pwyllgor (gan gynnwys y Cadeirydd)
- 5.2 Bydd y Prif Weithredwr a phrif swyddogion eraill yn bresennol ym mhob cyfarfod i ddarparu gwybodaeth, rhannu yn nhrefnadaethau ar faterion ac i gynorthwyo i ganfod atebion
- 5.3 Gall y Cadeirydd ofyn i unrhyw un neu i bob un sy'n bresennol ond heb fod yn aelodau ymneilltuo o'r cyfarfod i hwyluso trafodaeth agored ac onest am faterion penodol pan fydd angen hynny
- 5.4 Nid oes gan aelodau cyfetholedig hawliau pleidleisio, ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y cworwm sydd ei angen ar gyfer cyflawni busnes y pwyllgor

6. Amllder cyfarfodydd

- 6.1 Cynhelir cyfarfodydd o leiaf dair gwaith y flwyddyn
- 6.2 Gall Cadeirydd y Pwyllgor alw cyfarfodydd ychwanegol pe bai'n credu fod angen hynny
- 6.3 Gall y Bwrdd alw cyfarfodydd ychwanegol o'r Pwyllgor yma pe bai'n credu fod angen hynny

7. Gosod agenda

- 7.1 Cyn bob cyfarfod, dylai'r Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd a'i swyddogion a Chlerc y Bwrdd, gytuno ar y busnes ar gyfer y cyfarfod. Dylai'r Cadeirydd berchnogi'r penderfyniadau, a bod a'r gair olaf, ynglŷn â pha fusnes a drafodir mewn unrhyw gyfarfod penodol
- 7.2 Bydd yr agenda yn rhoi sylw i'r meysydd allweddol a nodwyd ynghynt nes eu bod wedi'u datrys yn llwyr, a bydd pob cyfarfod yn ystyried pa feysydd eraill y dylid eu nodi ar gyfer eu hystyried ochr yn ochr â meysydd eraill sy'n dal angen sylw parhaus

8. Hysbysu ynghylch cyfarfodydd

- 8.1 Bydd hysbysiad o bob cyfarfod sy'n cadarnhau'r man cyfarfod, amser a dyddiad ynghyd ag agenda o eitemau i'w trafod a phapurau ategol, yn cael eu hanfon at bob aelod o'r Pwyllgor, ac at unrhyw un arall sydd angen mynychu, a hynny ddim hwyrach na saith diwrnod gwaith cyn y cyfarfod

9. Cofnodion y cyfarfodydd

- 9.1 Bydd Clerc y Bwrdd yn cofnodi trafodion a phenderfyniadau holl gyfarfodydd Pwyllgor, yn cynnwys cofnodi enwau'r rhai sydd yn bresennol ac yn mynychu cyfarfod, ac unrhyw ymddiheuriadau sydd wedi eu derbyn
- 9.2 Bydd y cofnodion yn cofnodi'n glir natur unrhyw fuddiant sy'n cael ei ddatgan a dylid cynnal asesiad risg o'r buddiannau hyn er mwyn ystyried sut y gellir rheoli'r buddiannau hyn a lleihau eu heffeithiau andwyol yn ymarferol
- 9.3 Bydd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor fel arfer yn cael eu hystyried yng nghyfarfod y Bwrdd yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor

10. Cyfathrebu

- 10.1 Ar ôl pob cyfarfod, dylai'r Cadeirydd sicrhau bod adroddiadau perthnasol yn cael eu paratoi gan y Pwyllgor i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr os yw hynny'n briodol
- 10.2 Dylai'r Cadeirydd sicrhau hefyd bod gan bob aelod o'r Pwyllgor raglen cydgysylltu addas a'r Llyfrgell a'i gweithgareddau fel bod modd iddynt ddeall diwylliant y sefydliad

11. Gwerthuso effeithiolrwydd

- 11.1 Gyda chymorth y Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, dylai'r Cadeirydd sicrhau bod adolygiad yn cael ei gynnal bob hyn a hyn ar effeithiolrwydd cyffredinol y Pwyllgor a'i Gylch Gorchwyl

ATODIAD 4

Rhestr o Bolisiau'r Llyfrgell sydd mewn grym ar hyn o bryd

1 Dogfennau Llywodraethiant Craidd

- 1.1 Siarter Frenhinol Atodol a Statudau 2006
- 1.2 Statudau'r Llyfrgell (fel y diwygiwyd gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr ym mis Gorffennaf 2013, ac y cymeradwywyd gan y Cyfrin Gyngor ym mis Tachwedd 2013)
- 1.3 Rheoliadau (a fabwysiadwyd trwy benderfyniad yr Ymddiriedolwyr), Chwefror 2017, adolygwyd Chwefror 2018.
- 1.4 Rheoliadau Ariannol.
- 1.5 Cytundeb Fframwaith Llywodraeth Cymru [2011].
- 1.6 Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru 2019 - 2021
- 1.7 Polisi Buddsoddi Cronfeydd Preifat.
- 1.8 Cytundeb Partneriaeth gydag Undebau Llafur

2 Cynllun Strategol

- 2.1 Cof y Genedl: Lluio'r Dyfodol, Cynllun Strategol 2017 - 2021
- 2.2 Cynllun Gweithredol 2017 - 2021

3 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

- 3.1 Cyfrifon 2018 - 2019
- 3.2 Adolygiad Blynyddol 2018 - 2019

4 Polisiau Gweithredol sydd Mewn Grym

- 4.1 Polisi Datblygu Casgliadau (2016)
- 4.2 Polisi Cwynion (2016)
- 4.3 Adnoddau Safonol Contract ar gyfer Prynu Nwyddau a/neu Wasanaethau (2016)
- 4.4 Datganiad ar Bolisi Tâl 2016 - 2017

- 4.5 Polisi Gwirfoddoli (2015)
- 4.6 Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2014 - 2018
- 4.7 Polisi Diogelu Data GDPR (2018)
- 4.8 Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu Cyhoeddus (2017)
- 4.9 Strategaeth Marchanata (2017)
- 4.10 Polisi Diogelwch Gwybodaeth (2013)
- 4.11 Polisi ar Dderbyn Rhoddion a'u Gwrthod (2012)
- 4.12 Ein Plant (2012) – Strategaeth Tlodi Plant
- 4.13 Strategaeth Cadwraeth Ddigidol 2012-2015 (2012)
- 4.14 Polisi ar gyfer Cadwraeth Casgliadau a'u Gofal 2017 - 2020
- 4.15 Strategaeth Cyfryngau Digidol LIGC 2012-2015
- 4.16 Strategaeth Digidol (2011/12 - 2014/15)
- 4.17 Nodau Cydraddoldeb 2014 - 2018